| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 17EG RHAGFYR 2012 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGU AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | UWCH SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (est 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I DDIWEDDARU AR FATERION DATBLYGU AELODAU |

**Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda throsolwg o'r cynnydd sydd wedi ei wneud dros y ddwy flynedd diwethaf ynghylch hyfforddiant Datblygu Aelodau.

**Gweithgor Datblygu Aelodau (GDA)**

Sefydlwyd y GDA yn ystod cyfnod adfer yr Awdurdod a bu i'r grŵp gael y dasg o yrru pob agwedd o ddatblygu aelodau, gan weithredu fel ffocws ar gyfer anghenion aelodau.

'Roedd aelodaeth y grŵp gwreiddiol yn cynnwys dau Aelod Etholedig (gydag un ohonynt wedi eu henwebu fel Pencampwr Datblygu Aelodau); Aelod o'r Pwyllgor Safonau; Swyddog Monitro; Rheolwraig Hyfforddiant a Datblygu ynghyd â Sarah Titcombe o'r CLILC (swyddogaeth ymgynghorol).

Rôl y Cyfranogwyr oedd i:

- Gynrychioli anghenion yr holl aelodau, siarad ag arweinyddion grwpiau a phwyllgorau fel bôr angen
- Ymgymryd â datblygiad ymarferol cynlluniau a strategaethau
- Bod yn bencampwyr datblygu aelodau drwy'r cyngor
- Monitro gweithrediad yn ymwneud â datblygu aelodau

Rôl y Pencampwr oedd i:

- Bod yn bencampwr dros achos datblygu aelodau ymysg cyrff aelodau ehangach
- I gynrychioli anghenion datblygu'r holl aelodau

- I fod yn bencampwr i'r rhaglen datblygu aelodau

- I gynrychioli Môn ar y grŵp Rhwydweithio Pencampwyr Datblygu Aelodau a hwylusir gan CLlLC

Yn ogystal, bu disgwyl i'r GDA adrodd i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Safonau fel bo'n briodol a hefyd i'r Arweinydd/Grwpiau.

Yn nhymor diweddaraf y grwp, cafodd aelodaeth y grwp ei ymestyn i gynnwys y Rheolwr Sgriwtini yn ogystal â'r Comisiynydd cyfrifol.

Mae nifer o gynlluniau datblygu wedi eu cynhyrchu yn ystod y cyfnod yma ac mae mewnbwn o nifer o ffynonellau e.e. anghenion statudol; ceisiadau gan Aelodau unigol a.y.b. wedi cyfrannu tuag at y cynlluniau yma. Mae'r cynlluniau sy'n cael eu cynhyrchu yn naturiol yn "ddogfennau gweithiol" sy'n cael eu hadolygu/diweddaru'n rheolaidd i ddiwallu anghenion yr Awdurdod/Aelodau Etholedig.

Mae manylion yr holl hyfforddiant sydd wedi ei gydlynu drwy'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi eu cofrestru, ac mae'n cynnwys adborth ar sesiynau penodol/manylion presenoldeb a.y.b. Mae cofnod hefyd yn cael ei gadw ar record bersonol unigol Aelodau Etholedig sy'n adlewyrchu'r hyfforddiant a gynigir/fynychir.

Ers ei gychwyn, mae'r gweithgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r PS ac yn ddiweddar gofynnwyd am gynllun Anwytho drafft ar gyfer Aelodau Presennol/Newydd mewn darpariaeth ar gyfer yr etholiadau sydd ar ddigwydd yn Mai 2013. Bydd angen mewnbwn o bob adran er mwyn sicrhau fod y cynlluniau mor gyfredol â phosib.

I arddangos ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu aelodau, mae'r sefydliad yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno Adolygiadau Datblygu Personol i bob un o'r Aelodau Etholedig. Mae'r broses yma yn galluogi unigolion i roi adborth ar ei anghenion datblygu/profiadau mewn swyddogaethau penodol, fydd gobeithio yn rhoi mewnbwn gwerthfawr i greu cynlluniau datblygu yn y dyfodol ar gyfer yr Awdurdod.

Ymhellach i'r ymrwymiad yma, mae'r Awdurdod hefyd yn awyddus i geisio am statws Siarter Datblygu Aelodau sy'n darparu cydnabyddiaeth o'r datblygiad/cefnogaeth mae Aelodau Etholedig yn ei dderbyn yn eu rôl. Er mwyn symud ymlaen gyda'r cais, bydd angen i'r Awdurdod wneud hunanasesiad yn y lle cyntaf i amlygu "lle da ni rŵan" yn nhermau'r anghenion.

**<u>Symud Ymlaen</u>**

Gan fod y newidiadau a amlygir ym Mesur Llywodraeth Leol Cymru (2011) yn golygu fod cyfrifoldeb am ddatblygu aelodau bellach wedi ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, mae gwaith y GDA wedi terfynu erbyn hyn.

Yn naturiol, mae ymrwymiad Gwasanaethau Adnoddau Dynol i drefnu a chefnogi hyfforddiant ar gyfer Aelodau'n parhau.

**Miriam Williams - Uwch Swyddog Datblygu AD**
**Rhagfyr 2012**